
# Llygad Barcud

## Cylchgrawn Cymdeithas Ted Breeze Jones



Rhifyn 40 - Gaeaf 2018/19

# GOLYGYDDOL

Gyda mawr obaith y byddwch yn llawn hwyliau dros y Gwyliau. Cadwch yn gynnes, peidiwch a gor-fwyta a gobeithio y bydd Sion Corn, neu Santa Clôs, yn garedig. Os cewch rywbeth da yn eich hosan gan y gŵr o wlad y ceirw, cofiwch chwithau wneud yn siwr bod digon yn hosan gnau yr adar yn yr ardd 'cw. Hosanau llawn i bawb yw ein dymuniad!

Edrychwn ymlaen at dymor arall o deithiau'r Gymdeithas. Welwn ni chi yn y Flwyddyn Newydd.

**Cynnwys:**


Cofio Dan .................... 3

Taith yn ardal Trawsfynydd *Gareth Jones* .................... 4

Dirgelwch yr ŵy *Twm Elias* .................... 7

Taith Caergybi *Gareth Jones* .................... 8

Cudyll Pen Llŷn *Gareth Jones* .................... 10

Adar â'm plesiodd eleni *Ieuan Bryn* .................... 11

Darganfyddiad yn Mhorthmadog *Elfyn Lewis* .................... 16

Taith Llangefni *Gareth Jones* .................... 17

Gwylanod coesddu *Dewi Lewis* .................... 19

Cân yr adar *Twm Elias* .................... 21

Gweithgareddau'r tymor .................... 24


**Llun y clawr**: Un o wiwerod Nant y Pandy *Gareth Jones* - stori tud.17

**Swyddogion**


**Llywyddion Anrhydeddus**: Iolo Williams + Annwen Breeze Jones
**Cadeirydd**: Twm Elias (twm.elias@outlook.com)
**Trysorydd:** Huw Dafydd
**Ysgrifennydd**: Gareth Jones, Bryn Eithin, Yr Ala, Pwllheli LL53 5BN, 01758 614470
**Golygyddion Llygad Barcud**: Twm Elias a Gareth Jones (pwllheli@gmail.com)
**Cyfeiriad cyswllt cyffredinol:** gwefeistr@cymdeithastedbreezejones.org.uk



Cynigir **10%** o ostyngiad i aelodau'r Gymdeithas yn siop **Cotswold, Betws-y-coed**


Cyfrannwch i'n gwefan a chwiliwch drwy ôl-rifynnau Llygad Barcud

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

Edrychwch ar yr holl luniau o'n teithiau ar-

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk/lluniau.html**

## Dan Jones, Morfa Bychan



Yn ddiweddar bu farw Dan Jones, Morfa Bychan. Bu Dan yn aelod o Gymdeithas Ted Breeze ers nifer o flynyddoedd ac yr oedd yn aelod ffyddlon a gweithgar. Yr oedd yn aelod o'r Pwyllgor a bob amser yn barod i gynnig cyngor.

Bu'n dioddef o afiechyd drwg ers nifer o flynyddoedd ond yr oedd ymhlith un o'r aelodau mwyaf ffyddlon o ran dod ar deithiau a mynychu cyfarfodydd.



Ei hoff aderyn oedd y **gornchwiglen** – aderyn oedd yn gyffredin iawn yn ystod ei blentyndod yn ardal Porthmadog ond sydd wedi prinhau yn arw erbyn hyn. Yr oedd Dan wrth ei fodd yn edrych drwy ei Swarovski's ar y lliwiau amryliw a grëai yr haul ar gefn yr aderyn hwn.

Yr oedd Dan yn un brwd a diddorol i fod yn ei gwmni, yn barod ei gymwynas ac yn gwybod llawer am fyd natur. Yr oedd ei sgwrs yn aml yn troi at ei deulu a gwyddwn pa mor bwysig yr oeddent iddo. Mawr fydd eu colled a chydymdeimlwn yn ddwys â hwy. Bydd yn chwith garw i ninnau am ei gwmni difyr.

**Gareth Jones**




Yr **Ysgwrn** yn Nhrawsfynydd oedd ein man cychwyn ar gyfer y daith hon, a hynny ar ddiwrnod go hydrefol. Diddorol oedd gweld yr holl waith sydd wedi ei wneud ar y fferm hanesyddol hon ers ei phrynu gan Barc Cenedlaethol Eryri.

Wrth i ni ymgasglu yn y maes parcio cawsom ragflas o ddiwrnod o adarydda diddorol wrth i **walch glas** hedfan yn gyflym ac yn isel o'n hymyl i fyny at y coed uwchben y fferm.

Nid oedd amser y tro hwn i fynd i mewn i weld y tŷ a'r arddangosfa o gadeiriau eisteddfodol felly, ar ôl cael golwg sydyn ar du allan yr hen gartref, cychwyn'som ar ein crwydr o gwmpas y caeau.

I ffwrdd a ni felly i fyny'r caeau ac am y ffridd ar hyd y llwybr newydd sydd wedi ei greu o gwmpas y fferm. Yr oedd y llwybr yn dilyn hen wal gerrig a gwelsom bod rhywbeth yn symud ynddi. Yr oedd nifer o **gorhedyddion y waun** yn bwydo ar bryfetach yn y wal; tra'n llonydd,



*Dau gorhedydd y waun*

cystal oedd eu cuddliw ar yr hen waliau nes eu bod bron yn diflannu, ond wrth i ni symud, yr oeddent hwythau yn symud ac yn dod i'r golwg.



Yr oedd nifer o **nicos** hefyd yn cuddio yn y waliau cyn mynd i wledda ar yr esgyll a oedd wedi mynd i hâd yn y borfa. Swil iawn oedd y rhain, ond wrth gwrs fe ddaeth **robin goch** yn llawer nês i fysnesu a gwibiodd **dryw bach** allan o ryw dwll ar ôl bod yn chwilio am bryfaid mae'n siwr.

Wrth i ni ddringo tua therfyn y mynydd yr oedd **cigfrain** yn cylchu o'n cwmpas ac yn poeni **bwncath**. Wedi i ni fynd yn ein blaenau, meddyliodd Meinir iddi weld aderyn mwy dieithr yn gwibio yn ôl ac ymlaen oddi ar y ffens. Yr oedd ei ehediad yn ddigon i'w amlygu fel rhywbeth gwahanol. Daliodd pawb i chwilio a chwilio ac yn y diwedd gwelwyd **gwybedog mannog**. Mae hwn yn un o ymwelwyr yr haf sydd wedi mynd yn brin iawn erbyn hyn. Mae ei niferoedd wedi syrthio i chweched rhan o beth oeddent ddim ond 30 mlynedd yn ôl; mae'r BTO wedi rhoi fflag goch gyferbyn â'i enw i ddangos eu pryder am yr ymwelydd hwn o'r Affrig.

Wedi'r golwg brysiog hwn a gawsom arno, bron na wnaeth y gwybedog wedyn ein dilyn am weddill ein hamser yn yr Ysgwrn. Erbyn y diwedd yr oedd yr aderyn *dieithr* hwn i lawer ohonom wedi mynd yn un eithaf *cyfarwydd* ac yn hawdd i'w adnabod o ran ei symudiadau sydyn oddi ar bostyn ffens i ddal rhyw




*Gwybedog mannog*

bryfetyn ehedog. Cael golwg mor dda ar yr aderyn hwn yn sicr oedd uchafbwynt y diwrnod i ni.

Digon prin oedd yr adar eraill, ond yr oedd cymylau yn t'wchu a'r gwynt yn codi braidd. Wrth ymyl giât yr oedd dwy **siglen fraith** yn bwydo yn y mwd, a hefyd **ji binc** a mwy o nicos. Parhaodd y gwybedog mannog i'n dilyn wrth i ni gerdded drwy'r caeau isaf yn ôl at y ceir. Nid oedd llawer o adar eraill i'w gweld yno ar y diwrnod go hydrefol hwn, ond yr oedd yn amlwg yn lle a fyddai yn werth dod yn ôl iddo yn y gwanwyn pryd y byddai yr adar ymfudol yn cyrraedd yn eu holau.

O'r Ysgwrn, aethom ymlaen i'r Ganllwyd a throi am Goed y Brenin. Wrth i ni ddechrau cerdded drwy lwybrau'r goedwig fe drodd yn wlyb a 'doedd fawr o adar i'w gweld. Ond fe wnaethom ddilyn y llwybr a arweiniai tuag at weithfeydd aur Gwynfynydd.


*Pistyll Cain*

A hithau wedi bod yn wlyb ers dyddiau yr oedd y ddau raeadr ar ben y daith yn llifo'n wyllt – Pistyll Cain a Rhaeadr Mawddach. Erbyn heddiw y mae y rhan fwyaf o'r olion o'r gwaith aur wedi diflannu – ond mae *arian* yn dal i gael ei wneud yno! Bellach y mae gorsaf gynhyrchu trydan dŵr ar Rhaeadr Mawddach.

Mae cwmni Egni Adnewyddadwy Clogau wedi gosod argae yn uwch i fyny a thŷ tyrbin bychan ar waelod y rhaeadr. Pan fydd yr afon yn ei llawn lif, gall hwn gynhyrchu 100kW o bŵer (ond nid yw yn cael cymryd y dŵr pan fydd yr afon yn isel). Sefydlwyd cynllun tebyg yno yn 1928.

Y mae hanes y mwyngloddio yn mynd yn ôl i'r 1860au. Erbyn 1888 yr oedd 200 yn gweithio yno; yr oeddent yn gorfod tyllu ymhell i mewn i'r mynydd i ddilyn yr wythïen aur gan wneud yr aur yn ddrud iawn i'w gloddio. Bu cyfnodau o gloddio llwyddiannus ond ar adegau eraill, caeodd y gwaith. Y tro diwethaf i aur gael ei gloddio yno oedd yn 1998.

**Gareth Jones**

## Datrys Dirgelwch yr Ŵy

Mae gwyddonwyr o Ganada yn ddiweddar wedi cynnig ateb i gwestiwn sydd wedi bod yn poeni rhai pobl ers cenedlaethau lawer - cryfder plisgyn ŵy iâr.

Yr ydym yn gyfarwydd â chryfder y plisgyn – mae angen ei daro'n o galed yn erbyn ymyl powlen neu badell ffrîo i'w agor. Ac os ydych angen ŵy wedi'i sgramblo heb orfod baeddu eich troellwr (*whisk*), wel cerwch allan i'r cae efo ŵy a thaflwch o yn syth i fyny yn uchel i'r awyr. Pan ddisgynith - ddim ar eich pen, gobeithio - ond ar y borfa, fe ryfeddwch bod yr ŵy ei hun yn gyfan. Wnaiff o ddim malu o gwbl oni bai iddo lanio ar garreg. Triwch o... Ond, pan agorwch yr ŵy hwnnw fe welwch bod y melynwy oddi mewn wedi chwalu - wedi ei sgramblo!

Pan o'n i'n blentyn mi fyddwn yn gwneud hyn, yn taflu ambell ŵy yn Cae Cefn Tŷ, ac yna yn ei roi yn ei ôl efo'r wyau eraill. Byddai mam yn methu deall pam bod ambell ŵy ffres wedi mynd yn ddrwg, ond yn gwybod yn iawn ar bwy i roi y bai!

Y cwestiwn oedd, sut, os yw plisgyn ŵy mor galed, y mae'r cyw yn medru torri ei ffordd allan pan mae'r ŵy yn deor? Oes, mae ganddo 'ddant' bychan ar flaen ei big i'w helpu, ond prin bod hwnnw hyd yn oed yn ddigon i gracio'r plisgyn.

Drwy gymorth delweddu electronig a phelydr-X, gwelodd yr ymchwilwyr yng Nghanada bod trwch y plisgyn yn lleihau dros amser. Mae hynny'n gwneud synnwyr onid yw? Hynny yw, mae angen plisgyn cryf i amddiffyn yr ŵy yn ei ddyddiau cynnar, ond fel mae dydd y deor yn agosáu, bydd y cyw yn amsugno llawer o'r calch ohono i fagu esgyrn. Bydd hynny'n gwanhau'r plisgyn jyst digon i'r cyw fedru torri ei ffordd allan heb lawer o drafferth.

**Twm Elias**

### Lleidr Wyau

Da gweld bod Daniel Lingham, 65 oed o Norfolk, un o gasglwyr wyau gwaethaf gwledydd Prydain wedi ei ddal a'i garcharu. Cafodd ei riportio gan aelod o'r cyhoedd a'i gwelodd yn cymryd wyau ar Fai 21$^{ain}$ eleni yng ngwarchodfa natur Cawston Heath sydd i'r gogledd o Norwich.

Fe gyrhaeddodd yr heddlu yn eithaf buan wrth lwc a'i ddal efo wyth o wyau llinos yn ei feddiant. Pan chwliwyd ei gartref canfyddodd yr heddlu a swyddogion yr RSPB **5,257** o wyau adar gwyllt, o 298 rhywogaeth. Tipyn o gasgliad! Yr oedd 53 o'r rhywogaethau hyn ar y rhestr Schedule 1, sy'n golygu eu bod mewn peryg mawr o ddifodiant.

Dim dyma'r tro cyntaf iddo gael ei ddal - yn 2005 cafodd ei arestio a'i ganfod yn euog o fod â 3,600 o wyau yn ei feddiant. Cafodd 12 wythnos o garchar (ia, dim ond hynny) bryd hynny. Y tro hwn cafodd 18 wythnos o garchar (!!) a Gorchymyn Ymddygiad Troseddol o 10 mlynedd. Golyga hynny y caiff o bum mlynedd os amharith o ar nyth aderyn eto.

Cyfaddefodd Lingham fod casglu wyau yn obsesiwn, yn salwch clinigol arno. Bydd yr wyau yn cael eu rhoi i'r Natural History Museum.




Yr oedd yn fore oer iawn arnom yn ymgynnull ym Mharc y Morglawdd, Caergybi gyda eira cynta'r tymor wedi syrthio ar yr Wyddfa a gwynt oer ofnadwy yn chwythu o'r gogledd. Parc gwledig a ddatblygwyd yn ddiweddar ar safle y chwarel ble y cafwyd y cerrig ar gyfer adeiladu y morglawdd oedd hwn ac yr oedd **Rhys Jones** wedi cynnig ein harwain am y diwrnod.

Gyda'i glust fain, clywodd Rhys **binc y mynydd** ymhlith haid o **ji-bincod** oedd yn gwibio heibio ymhell uwch ein pennau wrth i ni gychwyn o'r maes parcio. Ar eu ffordd tua'r de o'u haf yn y gogledd pell yr oedd y rhain wrth gwrs ac yn falch o syrthio o'u llwybr ymfudol uchel i lawr i orffwys a bwydo cyn mynd ymlaen ar eu taith.

Wrth i ni gerdded o gwmpas y llwybrau yr oedd **titŵod cynffon hir** yn gwichian ymhlith y canghennau. Yr oedd **titŵod tomos las** yn gwibio yn ôl ac ymlaen o'r llwyni eithin i'r hafnau yn y clogwyni gan chwilio am bryfetach. Ond yn hollol sydyn, tawelodd popeth a diflannodd pob aderyn. Daeth y rheswm dros hyn yn amlwg – yr oedd **cudyll coch** yn hofran uwch ein pennau ac yn chwilio am ei brae.



Yr oedd pont dros y briffordd yn le da i edrych allan dros nifer o'r coed criafol llwythog a oedd ar hyd gloddiau'r briffordd ac ar ôl ychydig funudau, gwelsom **goch dan adain** a **mwyalchen** yn bwydo ac yr oedd un **gylfinir** unig yn bwydo ar y caeau cyfagos.



*Coch dan adain*

Ond gyda'r gwynt oer o'r gogledd, 'doedd y fan yma ddim yn le i fagu gwaed felly i ffwrdd a ni i weld beth a welem mewn rhannau eraill o'r ynys. Yn anffodus, yr oedd y gwynt yn corddi cymaint ar y môr fel nad oedd fawr i'w weld o'r prom tuag at yr harbwr canol - yr oedd y tonnau yn cuddio popeth heblaw am un **fulfran werdd**, felly ymlaen â ni i'r cysgod a gaed ym Mharc Penrhos.



*Gwylan môr y canoldir*

Nid ni oedd yr unig rai i fanteisio ar y cysgod o'r gwynt; yr oedd llawer o **wylanod penddu** yn gorffwys ar y môr cymharol dawel a gaed yno – ac yn eu plith, tynnodd Rhys ein sylw at un **wylan môr y canoldir**.

Ymlaen â ni wedyn gan droi'n cefnau ar Ynys Cybi am ychydig cyn ail-ymuno â hi ym Mhontrhydybont ble y mae cob a phont arall yn ei chysylltu â'r brif ynys. Y mae bae bach cysgodol yma ac fe welsom dipyn mwy o adar. Gwelsom **hwyaden lygad aur** gynta'r tymor – a hefyd **wennol** ola'r flwyddyn. Yr oedd yn annisgwyl gweld wennol ac eira ar y mynyddoedd.

Yn y mwd wrth ymyl y bont fe fwydai **coesgoch** a **chwtiad torchog**. A gwibiodd **rhostog** uwch ein pennau gan roi golwg da i ni ohono'i hun. Gyda'r cysgod o wynt y gogledd, 'doedd fawr ryfedd bod tipyn mwy o adar i'w gweld yn y fan yma.




*Rhostog*

Ar ôl diwrnod o adara difyr, braf wedyn oedd cael troi i'r caffi bach yn y pentref i gynhesu ac i hel straeon. Diolch yn fawr i Rhys am ein harwain ar hyd taith ddifyr mewn ardal ddieithr i'r mwyafrif ohonom.

**Gareth Jones**

# Cudyll coch Pen Llŷn



*Cudyll coch - iâr a **phum** cyw*



*Dau o'r tri cyw*

Bu yn haf llewyrchus iawn i'r **cudyll coch** ym Mhen Llŷn.

Yn uchel ar y clogwyni uwchben **Porth Ceiriad** fe nythodd pâr yn llwyddiannus a llwyddwyd i fagu **pum** cyw. Mae'r llun uchod yn rhoi syniad i chi am y cyffro mawr oedd i'w weld yn dilyn y fam yn dod â bwyd iddynt.

Dim ond rhyw filltir i ffwrdd, yr oedd pâr arall o gudyllod, ac fe wnaethant hwythau lwyddo i fagu **tri** cyw yn llwyddiannus.

**Gareth Jones**

## Yr adar a'm plesiodd yn 2018

Yr aderyn prinnaf a welais eleni oedd **Telor Cyrs Blyth** (*Blyth's Reed Warbler*). Roedd hynny ar Enlli ddechrau Mehefin. Dim ond pedair gwaith o'r blaen y gwelwyd o ar yr ynys. Mae wedi'i weld unwaith ar Ynys Sgogwm yn Sir Benfro, ond does dim cofnod iddo gael ei weld erioed ar dir mawr Cymru. Aderyn digon prin, felly, ond am greadur di-nod! Mi fyddai rhai'n dweud bod Aderyn y To yn fwy trawiadol nag o... ond am gân! Roedd amrywiaeth ac asbri'r nodau yn rhyfeddu rhywun wrth iddo fo ddynwared llu o adar eraill. Aderyn o'r Ffindir sy'n treulio'r gaeaf yn yr India ydi o ac, unwaith eto, allwch chi ond edmygu un mor eiddil yn hedfan y fath bellteroedd bob blwyddyn.

Yn y rhifyn diwethaf o'r cylchgrawn, nodais i mi weld **Cigyddion Cefngoch** (*Red-backed Shrikes*) yn Sambia fis Ebrill. Felly, syndod a hanner oedd gweld iâr Cigydd Cefngoch ar ddiwrnod cyntaf ein hymweliad ag Enlli - a dyna gyfle arall i'm cyd-adarwyr o Port a Chlydach edliw nad oes angen teithio i bedwar ban byd i weld adar a chreaduriaid diddorol a phrin. (Byddaf yn derbyn eu dadl pan wela'i deigar neu lew neu eliffant yn symud drwy'r llystyfiant ar Gorsydd Glaslyn!) Roedd hi'n bleser arbennig gweld, ar ynys agos yn fy ngwlad fy hun, yr aderyn bychan ysglyfaethus hwn sy'n cipio ac wedyn yn cuddio'i brae yn ei bantri cyfrinachol, drwy ei hoelio ar bigau drain duon ac ati. Yn anffodus, dim ond am ddiwrnod yr arhosodd ar Enlli cyn mudo ymlaen.



*Cigydd cefngoch*
*llun: Bernard Dupont*

Aderyn anghyffredin arall a welson ni oedd **Turtur** (*Turtle Dove*) yn ei phlu haf hynod o dlws. Yng ngorllewin Affrica y bydd y golomen frodorol leiaf hon yn gaeafu, a hi fel y gwyddoch ydi'r unig fath o golomen wyllt sy'n mudo. Mae niferoedd y rhai sy'n nythu ym Mhrydain wedi gostwng 91% dros y degawd diwethaf, ac maen nhw wedi diflannu bron yn llwyr o Gymru. Meddyliwch – 91% o ostyngiad mewn 10 mlynedd! Gan amlaf, dan fantell y nos y byddan nhw'n mudo, gan hedfan hyd at 430 o filltiroedd ar un ehediad,



*Turtur llun: Andy Morffew*



*Tylluan bach   llun: Gareth Jones*

ar gyflymder cyfartalog o tua 38 milltir yr awr.

Ond heb amheuaeth, ein profiad difyrraf ar Enlli oedd gwylio pâr o **Dylluanod Bach**, am awr a mwy, yn hela bob yn ail â thorheulo ar lethrau Mynydd Enlli yng nghyffiniau'r capel. Rhwng y cyrchoedd hela chwim, roedden nhw'n ceisio mwynhau haul y min nos ond roedd yna Orig Williams o dderyn du yn 'rhoi uffern iddyn nhw' am ddwyn chwilod a phryfed genwair o dan ei drwyn! Roedd ganddo hefyd nyth yn y cyffiniau.

Yn gynharach yn y flwyddyn – ar yr 16eg o Chwefror – trodd taith sydyn i weld **Elyrch y Gogledd** yn Nhremadog yn dipyn o antur. Roedd yna 58 ohonyn nhw yn pori'n glwstwr ar un o gaeau Portreuddyn, ac am ei bod hi'n olygfa mor hardd, roeddwn i am fynd fymryn yn nes. Roeddwn i'n dilyn llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg yn gyfochrog â ffens a godwyd ar ymyl y cae. Roedd hi wedi bod yn gyfnod go wlyb ac, er mwyn osgoi mwd dwfn, doedd dim amdani ond troedio'n bwyllog ar ymyl hen das silwair. Roedd llawr yr hen das yn edrych yn weddol sych a solet, ond yr eiliad nesaf, mi suddais drwy'r grawen DROS fy mhengliniau i lysnafedd drewllyd. A chael a chael oedd hi i mi fedru tynnu fy hun i fyny drwy gydio yn rhai o'r hen fyrnau, a chrafangu ymlaen o dow i dow. Yn fy marn i, roedd y das wedi'i gosod yn rhy agos o lawer at lwybr cyhoeddus, a mawr obeithiaf y bydd y ffermwr yn arfer doethineb wrth leoli ei das yn y dyfodol.



*Alarch y Gogledd   llun: Wicipedia*

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, rhoddodd Chwefror brofiad llawer mwy pleserus i mi. Yr 21ain o'r mis oedd hi. Diwetydd llonydd a'r amodau'n ddelfrydol i oddeutu 35,000 o **Ddrudwy** ddawnsio am bron dri chwarter awr cyn llifo i lawr i Gors Ystumllyn i glwydo. Bob rhyw hyn a hyn, byddai'r drudwy'n glanio ar y caeau yn garpedi eang, du cyn codi eto i greu rhagor o batrymau yn yr awyr oedd, erbyn hynny, yn cochi'n braf dros Fae Tremadog. Mewn pymtheng mlynedd o'u gwylio, dyma'r patrymau symudol mwyaf trawiadol a gofiaf.

Ond gadewch i ni newid hin ac awyrgylch, ac ymweld â Phorth Ceiriad yn Llŷn ar bnawn chwilboeth o Fehefin (y 30ain, i fod yn fanwl). Y traeth nodedig yn berwi

o fôr-addolwyr, a PHUMP o gywion **Cudyll Coch** yn sgrechian nerth eu pennau o'u nyth yn uchel ar y creigiau, bob tro y deuai'r fam â'i 'blasusfwyd' iddyn nhw. A fawr neb o'r nofwyr na'r trochwyr traed yn ymwybodol o'r tylwyth niferus, wrth straffaglu i gynnal cydbwysedd ar fyrddau syrffio, a gwenu'n sidêt wrth grensian y tywod a chwythwyd i'w brechdanau!



Bu fy milltir sgwâr innau yn ddifyr ei hadar eleni eto. Yn yr hydref a'r gaeaf, byddaf yn cael hwyl garw'n chwilio am y **Cyffylog** – yr aderyn boliog hwnnw, a llygaid mawr fel marblis, sy'n gwardio mewn brwgaitsh tan yr eiliad olaf, cyn codi o dan un o'ch traed a gwneud i chi neidio o'ch croen. Ar y 12fed o Fawrth, dyma wneud iddo yntau neidio o'i groen - a'i blu! Drachtio dŵr o dan fwa lein fach Stiniog, ryw hanner milltir o'r tŷ, yr oedd o. Mi gododd fel taran pan welodd fi, a sgrialu am y twmpathau eithin, a'i big hirfain yn werth ei gweld.



*Coch y Berllan llun: Wicipedia*

Golygfa arall roddodd bleser i mi oedd y pedwar **Coch y Berllan** a welais, ar y 12fed o Ionawr, yn sglaffio blagur un o'r coed ceirios croesryw wrth fferm Rhiw Goch. Oedd, roedd y goeden wedi dechrau blodeuo cyn canol Ionawr, yn y cyfnod annaturiol o fwyn gawson ni cyn i'r 'bwystfil o'r dwyrain' dramwyo'r wlad.

Cyffro arall oedd dal y **Gog** yn mynd o lech i lwyn ar gwr coedwig Pant y Wrach, yn galw a galw. Cog gynta'r tymor i mi. Y dyddiad? Y 14eg o Ebrill.

I lawr y lôn ym Maentwrog, cael fy ngwefreiddio'n weddol aml gan **Las y Dorlan**. Mae yna dderwen y bydda i'n hoffi eistedd dani ar lan yr afon. Ar yr 20fed o Fawrth, gwibiodd y ceiliog i lawr yr afon a glanio ar frigyn yn union gyferbyn â mi. Cefais ei wylio'n hofran a'i gefn symudliw tuag ata'i, ei wylio wedyn yn hofran a'i frest oren lachar tuag ata'i, a'i wylio hefyd yn sganio'r dŵr am sgodyn o ben postyn ar y lan. Arhosodd yn y llecyn am ugain munud, mae'n siŵr, gan blymio i'r dŵr amryw o weithiau. Profiad i lonni calon ar ddiwrnod cynta'r gwanwyn.

Ond pa adar gyrhaeddodd y brig'?

Yn drydydd, gosodaf **Foda'r Gwerni** (*Marsh Harrier*). Gwelais hwn yng Nghors Ddyga yn Sir Fôn ar y 29ain o Fehefin, yng nghwmni Dr Luned Lee, cyn-feddyg ac adarwraig frwd. Digwydd troi yn ein holau ar un o'r lonydd trol wnaethon ni ac oedi wrth un o giatiau mawr y warchodfa, a dyma'r ceiliog brenhinaidd yn llithro

drwy'r awyr uwchben y gors, a mynd â gwynt y ddau ohonom. Ar y pryd, tybid bod yna dair iâr Boda'r Gwerni ar y safle, a phryderai amryw y gallai fod yn anodd, os nad yn amhosib, i un ceiliog warchod a bwydo tair iâr a'u cywion.



*Boda Tinwen*
*llun: Wicipedia (R. Crossley)*

Yn yr ail safle, gosodaf y **Boda Tinwen** (*Hen Harrier*). Un o fanteision homer o haf fel yr un a gawsom ydi'ch bod chi'n gallu cynllunio eich gweithgarwch awyr agored ymlaen llaw, a glynu wrth eich cynlluniau. Roedd yr 17eg o Fai yn fore cynnar godidog ar fynydd-dir y Berwyn. Gwylio ceiliog Boda Tinwen yn hela'n hir cyn i iâr godi o'r grug a chylchu gydag o yn yr awyr. Ar ôl cylchu am gryn amser, mae'r ddau yn hedfan gyda'i gilydd dros fy mhen a diflannu i'r moelydd... Ar y 25ain, clywed yr iâr yn galw'n ddi-baid, a'i gweld yn hel **Barcud** am adra mewn sgarmes ddramatig iawn. Gwylio'r ceiliog wedyn yn dod â bwyd iddi yn ei grafangau; hithau'n gwneud sŵn hisian rhyfedd wrth sgimio'r grug ar ei ffordd ato, ac yntau'n trosglwyddo ei brae iddi yn yr awyr. Waw! Digwyddodd hyn bedair gwaith tra'r oeddwn i yno yn nhawelwch y bryniau.

Yn gydradd ail â'r Boda Tinwen, gosodaf y **Dylluan Wen** a welais ar hap lwyr, wrth yrru am adref yn hwyr y nos ar y 9fed o Hydref. Roedd hi'n cadw gwyliadwriaeth ar bostyn ffens ar ymyl y ffordd rhwng Llanfrothen a Phrenteg. Stopiais y car ac edrych mewn rhyfeddod arni. Roedd hi'n clustfeinio am symudiadau yn y gweiriach odani. Arhosodd yn ei hunfan fel delw a pharhau i ganolbwyntio. Yna, trodd ei phen tua goleuadau'r car, a syllu arnaf am rai eiliadau cyn hedfan i ffwrdd ac ymdoddi fel angel i'r tywyllwch.

Yn cipio'r wobr gyntaf, am berfformiad a'm cyfareddodd yn lân, mae



*Dau droellwr mawr - llun: Wicipedia (P.Taszynski)*

**Troellwyr Mawr** Penrhyndeudraeth. Y 4$^{ydd}$ o Orffennaf oedd hi - un o'r nosweithiau hynny pan fydd hi'n lled-olau drwy'r nos. Copaon yr Wyddfa, y Cnicht a'r Moelwynion yn finiog glir ar y gorwel. A'r gwybed yn bla. Anodd dweud faint yn union o droellwyr oedd wrthi, fel morthwylion sinc, yn yr hen Waith Powdwr. Rhaid bod yna o leiaf chwech. Ac ar eiliad annisgwyl, dyma un ohonyn nhw'n mentro allan o'r llwyni a dechrau ymlid gwyfynod o fewn hyd braich i mi. A dyma un arall yn ymddangos, a'r ddau wedyn yn dawnsio'n ysgafndroed o 'nghwmpas i. O bryd i'w gilydd, cawn gip ar yr 'hancesi gwynion' ar adenydd y ceiliog, wrth iddyn nhw ddal ati i ddawnsio yn y cylch hud rhyngof i a chynfas borffor ac oren yr ôl-fachlud.

A dyna ni. Mwynhewch y cystadleuwyr a'u perfformiadau yn 2019!

**Ieuan Bryn**

## Y Gynhadledd - Sgwrs gan yr hebogwyr




Uchafbwynt y gynhadledd eleni oedd cael sgwrs gan Geraint a Margaret Williams am eu gwaith gydag adar ysglyfaethus a chawsom ein cyflwyno i nifer o'u tylluanod a'u hebogiaid.

Cawsom glywed gan Geraint sut i'w ddiddordeb yn yr adar hyn ddatblygu ers pan yn ifanc a sut y daeth i fod yn fywoliaeth iddo maes o law. Eglurodd sut yr oedd yn hyfforddi yr adar ar gyfer eu gwaith. Cawsom hefyd glywed am yr holl adar a ddaw i'w ofal yn dilyn damweiniau ar y ffordd ac ati.

## Darganfyddiad ym Mhorthmadog



Gwelwyd **corhedydd y graig** gyda modrwy werdd gyda'r llythrennau TAN mewn gwyn arni ar y Cob ym Mhorthmadog ar Dachwedd 11fed eleni.

Ar ôl gwneud ymholiadau, derbyniwyd gwybodaeth diddorol sef bod yr aderyn hwn wedi ei fodrwyo yn Maletangen, Norwy ar y 9fed o Fedi - 62 diwrnod cyn iddo ymddangos ym Mhorthmadog.




Ceiliog ifanc oedd y corhedydd - cyw o 2017. Yr oedd wedi hedfan 1,293km o'r safle modrwyo i gyrraedd Port! Ond yr hyn sydd yn gwneud y cofnod yn fwy diddorol yw mai dyma'r corhedydd y graig cyntaf a fodrwywyd yn Norwy i'w weld yng Nghymru.

Mae adarwyr wedi amau ers blynyddoedd bod llawer o gorhedyddion y graig a welir o gwmpas arfordir Cymru yn y gaeaf yn hanu i'r gogledd ohonom yng ngwledydd Sgandinafia. Un cofnod arall sydd o Gymru o'r rhan yna o'r byd sef aderyn o Sweden a ddarganfuwyd yn Sir Fôn.

**Elfyn Lewis**

### NODYN PWYSIG

Y mae ein TÂL AELODAETH wedi codi eleni – y mae bellach yn **£10** (unigolyn) a **£12** (teulu). Os ydych yn talu drwy **daliad sefydlog** o'ch banc yn hytrach na siec mae yn rhaid i **CHI** ddweud wrth eich banc bod angen NEWID Y SWM a delir yn flynyddol neu byddant yn dal i dalu'r swm gwreiddiol. A wnewch felly roi gwybod i'ch banc am hyn os gwelwch yn dda?



Mae rhai o'n teithiau yn golygu cerdded milltiroedd ar hyd y bryniau ond mae teithiau eraill yn rhai mwy hamddenol. Taith o'r ail ddosbarth hwn oedd taith Llangefni – ond er hynny yr oedd yn daith gofiadwy.



Cychwyn'som yn **Oriel Môn** a'r bwriad oedd cael gweld arddangosfa o waith **Charles Tunnicliffe** a dreuliodd lawer o'i oes ar yr ynys. O'r casgliad mawr o'i waith sydd ganddynt, yr hyn oedd yn cael ei arddangos oedd ei engrafiadau cywrain. Yr oeddem yn rhyfeddu at y gofal a gymerai i ddarlunio pob pluen yn unigol.



O'r Oriel aethom ymlaen ar hyd y llwybr sy'n mynd tua Llyn Cefni ar hyd Nant y Pandy. O fewn canllath o adael ein ceir, cawsom ein cyfareddu gan sioe wych o **wiwerod coch** yn gwneud eu campau o gwmpas y bwydwyr. Ac wrth i ni fynd yn ein blaenau ar hyd y llwybr yr oedd yr un peth yn cael ei ail-adrodd ger bob un o'r bwydwyr. Sioe heb ei hail! Diddorol oedd gweld yr amrywiaeth oedd yn lliw y gwiwerod; yr oedd llawer ohonynt yn goch iawn ond eraill yn llawer tywyllach. Deallir bod gwiwerod coch o'r Almaen wedi eu cyflwyno i'r Ynys er mwyn cryfhau pwll genynnol y gwiwerod a bod y rhai Almaenig yn dywyllach na'r rhai brodorol.



Yr oedd nifer o **ditŵod cynffon hir** yn bwydo yn brysur yn y brigau wrth ein pennau a daeth **dryw eurben** yn agos iawn i fysnesu beth oedd yn digwydd – ond yn llawer iawn rhy aflonydd i neb allu cael llun ohono gyda'r camera.

Ar y bwydwyr adar, yr oedd **titŵod mawr, titŵod tomos las** a **thitŵod penddu**. Cawsom wefr hefyd o weld **delor y cnau** a **chnocell fraith** yn dŵad i lawr at y cnau.

Erbyn diwedd y pnawn, nid oeddem wedi cerdded ymhell o gwbl, ond yr oeddem wedi mwynhau ein hunain yn arw iawn ac wedi gweld pethau fydd yn aros yn y cof yn hir iawn. I goroni diwrnod da, cawsom wledda ar deisen Nadolig (fuan) yr oedd Eifion wedi ei choginio ar ein cyfer!

**Gareth Jones**

**Cyfeiriad bocsus nythu**

Rydym yn gwybod na ddylsem osod bocsys nythu i wynebu'r de, am fod llwyddiant y cywion a fegir ynddynt yn llai. Rwan rydym yn gwybod pam.

Mewn erthygl yn y *Journal of Avian Biology* yn ddiweddar, adroddwyd y gall cywion titw tomos ddygymod â thymheredd o 50˚C. Ond am y golyga hynny y bydd raid iddynt dreulio llawer o egni yn anadlu'n gyflym i gadw'u tymheredd i lawr bydd graddfa eu tyfiant yn is.

(*BBC Wildlife, Mehefin 2018*)

**Y fam bluog hynaf yn y byd**

Mae'r aderyn môr hynaf yn y byd newydd ddodwy ŵy yn ôl adroddiad yn y papur newydd yn ddiweddar a hynny ar Ynys Midway ynghanol y Môr Tawel.

Iâr o rywogaeth yr **albatross Laysan** yw'r fam falch; tipyn o gamp a hithau tua 68 oed. Fe'i modrwywyd yn 1956 pan oedd tua 5 oed ac mae wedi magu 36 o gywion yn llwyddiannus ers hynny. Pob lwc i gyw rhif 37 ynde?



Yng Nghymru, y mae **adar drycin Manaw** yn byw yn hir hefyd. Cafwyd adar ar Sgomer ac Enlli a ddychwelodd i nythu dros hanner can mlynedd ar ôl cael eu modrwyo.

*(Papur yr "i" 10 Rhagfyr, 2018)*

## Gwylanod Coesddu Gateshead



Yn ystod y misoedd diwethaf y mae gwylanod wedi cael lle amlwg yn y cyfryngau. Cymaint yw'r pryder am wylanod yn "meddiannu" ein pentrefi a'n dinasoedd nes bod sawl cyngor yn cymryd camau pendant i geisio eu rheoli. Cafwyd adroddiadau yn yr wasg am wylanod yn ymosod ar gi ac ar grwban anwes mewn gwahanol ardaloedd yn Lloegr.

Ar ddiwedd mis Awst treuliais dridiau yn ninas Newcastle. Prif bwrpas y daith oedd mynd i wylio pêl-droed - ond gwylanod a aeth a'm bryd. Roeddwn yn hollol anwybodus am gysylltiad gwylanod â'r ddinas arbennig hon. Dim ond wedi i mi esgyn i bedwerydd llawr adeilad y Baltic Mill ar y cei yn Gateshead y sylweddolais bod gwylanod yn rhan o ecoleg ac amgylchedd y ddinas.

Adeilad uchel yw'r Baltic Mill ar lan yr afon Tyne. Ar un adeg roedd yn gartref i felin flawd ond erbyn heddiw mae'n oriel gelf boblogaidd. Wrth i mi gamu allan ar y balconi clywais sŵn cyfarwydd sef galwad **gwylan goesddu** (*kittiwake*- mae'r enw Saesneg gyda llaw yn tarddu o alwad yr aderyn). Ar y pryd tybiais mai aderyn unigol oedd yn galw wrth iddo ddigwydd hedfan heibio, ond wedi craffu yn ofalus ar y silffoedd ar ochr adeilad y Baltic Mill sylwais bod degau o'r adar yn gorffwyso yno. O graffu yn fanylach sylweddolais bod hefyd olion nythod yn britho'r silffoedd. Beth ar wyneb daear oedd gwylan y cefnfor a'r moroedd yn ei wneud ar adeiladau yng nghanol dinas - saith milltir i mewn i'r tir?

Bu'n rhaid darllen hysbysfwrdd gerllaw i gael yr ateb. Dechrau'r stori yw i nifer bychan o'r adar ddechrau defnyddio silffoedd ar adeiladau yn ystod yr 1960$^{au}$ er mwyn nythu. Dim ond yn ystod y tymor magu (rhwng Mawrth ac Awst) y bydd yr adar i'w gweld yma. Yn ystod y gaeaf maent allan ar gefnfor yr Iwerydd. Gyda threigl amser cynyddodd y niferoedd nes erbyn heddiw mae dros 700 o barau yn nythu ar yr adeiladau ar gei Gateshead.

Cynefin arferol yr adar yn ystod y tymor nythu yw clogwyni serth yn agos i'r môr. Dyma'r nythfa o wylanod goesddu bellaf i mewn i'r tir yn y byd. Oddi yma **mae'r môr oddeutu saith milltir i ffwrdd**. Gyda chymorth tracio lloeren sylweddolwyd bod oedolion o'r nythfa yn hedfan oddeutu **can milltir** ar y tro er mwyn sicrhau bwyd i'w cywion. Mae'n rhyfeddol bod adar y cefnfor mor gartrefol yng nghanol dinas mor brysur. Erbyn heddiw mae'r adar yn atyniad twristiaeth gyda chamerâu yn cael eu gosod er mwyn galluogi ymwelwyr i wylio anturiaethau y tymor magu.

Fel arfer bydd y ceiliog a'r iâr yn mynd ati i adeiladu nyth o wymon a gweiriach, yna fe fydd yr iâr yn dodwy dau neu dri o wyau. Bydd yr wyau yn deor mewn pedair wythnos ac fe fydd y ddau riant yn gyfrifol am fwydo a magu'r cywion.

Wrth gwrs nid yw perthynas y gwylanod coesddu â thrigolion yr ardal wedi bod yn fêl i gyd ychwaith. Gyda thrawsnewid nifer o hen adeiladau ar hyd y ceiau i swyddfeydd a fflatiau gorfodwyd yr adar i geisio safleoedd newydd i nythu. Un safle amlwg wrth gwrs oedd y bont haearn sydd yn croesi'r afon Tyne ac erbyn heddiw ceir nifer o'r adar yn nythu yno. Safleoedd eraill oedd rhai o'r adeiladau ar hyd strydoedd Newcastle. Yn anffodus mae olion carthion gwyn yr adar yn staen amlwg ar wyneb rhai o'r adeiladau yma erbyn heddiw. Ceisiwyd defnyddio rhwydi i atal yr adar rhag defnyddio'r adeiladau ac mae'n ymddangos bod y frwydr rhwng dyn a natur yn parhau yn flynyddol. Tybed yn wir beth fydd tynged y gwylanod yn ein pentrefi a'n dinasoedd ?

**Dewi Lewis**

### Cur Pen y Gnocell

Mae sain curiadau'r gnocell yn gyfarwydd iawn yn y gwanwyn. Bydd yr aderyn yn taro'r boncyff tua 16 gwaith yr eiliad a hynny â grym a fyddai'n gadael un ohonom ni yn anymwybodol. Credir bod y pig miniog, padiau gwarchodol yn penglog a chyhyrau arbennig yn gwddf a'r pen yn arbed niwed i ymennydd y gnocell. Ar sail hyn bu cryn ymchwil i ddulliau'r gnocell o amddiffyn ei ymennydd, gan arwain at ddatblygu helmedau a dulliau o amddiffyn y pen ar gyfer peilotiaid awyrennau milwrol, gyrwyr ceir a motobeics rasio a chwaraewyr pêl-droed Americanaidd.

Mae hynny wedi bod yn ddatblygiad llwyddiannus iawn. Ond sylw a wnaed gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Boston oedd nad oedd neb wedi edrych yn fanwl ar ymennydd cnocell i weld os oedd yno ddifrod neu beidio. O ganlyniad canfuwyd bod difrod yn y cnocellod hŷn - tebyg i beth a welir mewn bocswyr neu chwaraewyr rygbi sydd wedi cael eu taro'n anymwybodol sawl gwaith. Ond, y tebyg yw mai heb eu dulliau arbennig o amddiffyn eu pennau, byr iawn fyddai oes cnocell beth bynnag.

## Rwy'n canu fel cana'r aderyn



Does dim byd hyfrytach na phersain 'deryn y gwanwyn yn ei morio hi i ddatgan ei diriogaeth neu i ddenu ac yna dal gafael ar ei gymar. Gallwn yn hawdd feddwl hefyd ei fod yn ymhyfrydu yn angerdd ei gân wrth ymarfer, ehangu a pherffeithio ei repertoire.

Ceir amrywiaeth mawr yng nghymhlethdod caneuon gwahanol adar. Rhai yn syml, megis deunod y gwcw neu'r siff-saff ac eraill yn fwy cymhleth, megis caneuon y robin, ji-binc neu'r telor helyg. Ond enillwyr rhuban glas eisteddfod yr adar ydyw y cerddorion creadigol megis y deryn du, y fronfraith, yr eos, a dynwaredwyr megis y ddrudwy.

Rhaid cofio bod gan adar amrywiaeth go fawr o seiniau at sawl pwrpas. Maent yn hwtian, sgrechian, crawcian, wylofain, trydar, gwichian, tician a dwrdio. Mae ganddynt eu galwadau cyswllt i gysylltu â'u teulu neu yr haid y maent yn rhan ohoni, eu galwadau rhybudd a dwrdio yn ogystal â'u caneuon tymor nythu.

Mae rhai, megis y brain, yn hepgor caneuon tiriogaethol bron yn gyfan-gwbl ('does ganddyn nhw fawr o leisiau canu beth bynnag) tra bo'r gnocell fraith (un arall sydd heb fawr o lais canu) yn dewis drymio yn hytrach na pherseinio, a'r gïach yn defnyddio plu ei gynffon i hymian ei hawliau. Ar gyfer gwneud y job mae'r seiniau di-lais hynny yr un mor effeithiol.

Nid bod teulu'r brain yn ddi-ddweud chwaith, gwrandwch ar deulu o biod, ydfrain, neu frain coesgoch yn sgwrsio â'i gilydd, mae ganddynt 'eirfa' gyfoethog iawn. Mae hynny'n wir am adar cymdeithasol o bob math – gwrandewch ar alwadau titws ac adar bach eraill wrth iddynt symud yn heidiau bychain o un gardd i'r llall yn y gaeaf. Hyd yn oed mewn heidiau cymysg y mae pob rhywogaeth yn adnabod galwadau cyswllt ei gilydd ac yn sicr yn adnabod eu galwadau rhybudd!

**Dysgu canu**

Dywedir bod y gallu i ddynwared sain ac i'w ddefnyddio i greu a chyfleu negeseuon lleisiol yn un o rag-anghenion pwysicaf cyfathrebu effeithiol. Rhaid i gyw neu anifail ifanc fynd drwy broses o addysg seinegol wedi eu gyplysu â'r arwyddion corfforol priodol cyn medru meistroli crefft y cyfathrebwr. Drwy ddynwared a sylwi ar ei rieni y mae'r bychan yn dysgu. Bydd rhai yn cyfyngu eu hunain i ddysgu cân eu rhywogaeth eu hunain yn unig, tra bydd eraill yn mynd yn llawer pellach, gan ddynwared pob mathau o synau o'r byd mawr o'u cwmpas, yn cynnwys darnau o ganeuon a galwadau adar eraill.

Gwelwn y ddawn gyfathrebu seinegol ar ei gorau mewn nifer fechan o

greaduriaid, megis parotiaid, adar cân, dolffiniaid, morfilod, ac un math o breimat, sef ni. Ond hyd yn oed o fewn teuluoedd y rhain ceir llawer o amrywiaeth. Meddyliwch am y gwahaniaeth yng nghyfoeth y caneuon o fewn teulu'r teloriaid, o drrrrrrydar undonog y nyddwr bach, i bersain y telor helyg, i rialtwch dynwaredol telor y gwerni (Acrocephalus palustris), sy'n ymwelydd gweddol brin â Chymru. Gellir pigo o gân hwn, gymysgfa nid yn unig o ganeuon ein hadar ni, fel y deryn du, ji-binc, llinos, gwylan, jac-do ayyb ond hefyd rai o adar dwyrain Affrica, lle mae'n mynd i aeafu. Gall adarwyr sy'n hoffi crwydro bigo allan o'i gân seiniau sisticola Boran, y durtur winau a'r cigydd brwbrw, sy'n rhoi inni ryw fap seinegol o'i deithiau Affricanaidd.



*Telor y gwerni*
*llun: Wicipedia Marek Szczepanek*

Mae galluoedd rhai dynwaredwyr yn rhyfeddol; parotiaid, er enghraifft, am fod ganddynt dafod tebyg i'n un ni, yn bencampwyr ar ddynwared geiriau a hyd yn oed brawddegau dynol. Parot ifanc yw'r gorau am ddysgu, ond bod angen amynedd. Roedd 'na un yn Efrog Newydd oedd yn gwrthod ymateb i'w wersi siarad, tan un dydd fe'i clywyd yn gwaeddi yn yr ystafell nesa: "*Talk, damn you, talk!*" A be am yr ehedydd cribog hwnnw yn ne'r Almaen a ddysgodd chwibanu fel bugail, oedd wedyn yn ffwndro'r cŵn druan yn llwyr.

**Y tebygrwydd rhwng dyn a deryn**

Bu i'r rhai sy'n ymchwilio i sut y datblygodd y ddynoliaeth y gallu nid yn unig i siarad, ond i ganu hefyd, o'r farn na waeth inni heb ag edrych am darddiad y doniau hyn drwy dynnu ar gymariaethau â'n perthnasau agosaf, sef yr epaod a'r mwncïod. Does 'na fawr o debygrwydd i'w weld yma. Arwyddion corfforol ac ymddygiad yw eu prif gyfrwng cyfathrebu nhw beth bynnag a chyfyng yw eu dibyniaeth ar sain. Maent yn medru rhuo, ebychu a sgrechian yn effeithiol iawn ond yn methu â geirio fel ni. Er hynny mae'r tshimpansï yn dda iawn am ddysgu iaith arwyddion llaw.

Ond pan gymharwn â byd yr adar fe welwn debygrwydd rhyfeddol rhwng sut y mae plentyn yn dysgu siarad a sut y mae aderyn ifanc yn dysgu canu. Mae hyn yn wir o ran y broses o ddynwared, ymarfer a chofio seiniau ac mae hyd yn oed strwythur y rhannau o'r ymennydd a rhai o'r genynnau perthnasol yn debyg. Rhyfeddod ynde? Er bod 150 miliwn o flynyddoedd ers pan wahanodd y ddwy gangen o'r dinosoriaid roddodd inni adar a mamaliaid – y mae tebygrwydd o hyd

rhwng dyn ac aderyn yn y rhannau sy'n ymwneud â sain.

Mae anthropolegwyr o'r farn bod dynion cynnar wedi datblygu iaith i gyfathrebu'n well wrth baratoi at hela neu drosglwyddo gwybodaeth am adnoddau, lleoedd a pheryglon o fewn eu tiriogaeth eang. Rhan bwysig o'u datblygiad ieithyddol oedd dysgu dynwared seiniau anifeiliaid ac adar mewn cyswllt addysgiadol neu seremonïol a hefyd i ddenu eu prae i ddod yn nes fel y gellid ei ddal. Y mae dynwared gwahanol greaduriaid drwy ddawns a chân yn rhan o ddefodau llawer o gymunedau aborijinêaidd hyd heddiw.

Dros amser, yn ogystal â'r llafar-ganu seremonïol, datblygodd dyn y ddawn i ganu ac i greu a chofio alawon. A pha well symbyliad i feithrin yr awen gerddorol na gwrando ar seiniau byd natur a chaneuon adar yn benodol. 'Dwi, yn gam neu'n gymwys, o'r farn mai trwy werthfawrogi a dynwared alawon yr adar y bu i'r ddynoliaeth hefyd ddod yn gantorion. Meddyliwch pa mor debyg yw mydr a thonyddiaeth (neu raddfeydd y sol-ffa) ein cerddoriaeth ni â'r elfennau tebyg mewn caneuon adar.

Meddyliwch am y pleser gawsai ryw heliwr cyntefig yn ei groen arth, 30,000 o flynyddoedd yn ôl, yn eistedd dan goeden yn Nyffryn Maentwrog yn gwrando ar dri-nodau bronfraith uwchben, mor hawdd eu dynwared. Yna Beethoven yn cael ysbrydoliaeth o ganeuon ei ddrudwy ddof ac yn ymgorffori rhannau ohonynt yn ei symffonïau. A Dafydd y Garreg Wen yn deffro'n lled feddw mewn ffôs yn ardal y Gêst un bore o haf ac yn clywed yr ehedydd uwchben. Hynny a'i ysbrydolodd i gyfansoddi 'Codiad yr ehedydd'.

**Twm Elias**

**Brân â brêns**

Mae'n debyg mai brân Torres o Gini Newydd a gogledd Awstralia yw un o'r adar mwyaf deallus a chall o'r holl adar. Mae'n enwog am ddatrys y problemau sydd weithiau'n gysylltiedig â chael gafael ar fwyd o le anodd.

Yn ddiweddar gwelwyd bod rhai o'r brain hyn wedi llwyddo i ddatblygu dull o fwydo ar greadur gwenwynig iawn sydd wedi achosi problemau aruthrol i greaduriaid o bob math wrth ymledu drwy Awstralia. Hwn yw y llyffant cên ac mae ei wenwyn, sy'n llifo o chwarennau ar ei gefn ac yn arbennig ei wddf, yn lladd beth bynnag sy'n ei lyncu.

Ond mae'r brain clyfar wedi deall hynny ac wedi dod i wybod sut i osgoi'r gwenwyn.

Maent wedi dysgu troi'r llyffant ar ei gefn a'i ddal i lawr, yna agor croen ei fol i gael gafael ar y perfedd a chroen y cluniau i gael gafael ar y cig o'r tu mewn i'r coesau trwchus. Yna maent yn agor ceg y llyffant marw a gwledda ar ei dafod.

Am fod y brain yn medru dysgu oddi ar ei gilydd mae'r tric hwn wedi dechrau lledu dros ardal eang, yn union fel y lledodd tric y titw o agor poteli llefrith ar y stepen drws ers talwm.

## RHAGLEN Ionawr 2019 - Awst 2019

Mae'n bwysig iawn eich bod yn edrych ar ein gwefan yn rheolaidd er mwyn cael y manylion diweddaraf am beth fydd yn digwydd. Yn well byth, anfonwch eich cyfeiriad e-bost i ni ac fe gewch neges amserol am bob digwyddiad (cyswllt pwllheli@gmail.com ).

**Ionawr 26:**
Taith yn ardal **Pwllheli**
Cyfarfod ym Mhlas Heli (y ganolfan hwylio newydd) SH382 349 - LL53 5YT

**Chwefror 23:**
Taith yn ardal **Llyn y Gele,** ger Dolgellau
Cyfarfod yn y Bontnewydd (rhwng Dolgellau a Rhydymain) SH771 202 - LL40 2DF

**Mawrth 30:**
Taith yn ardal **Dyffryn Ardudwy** dan arweiniad Huw Dafydd
Cyfarfod yng nghanol Tal-y-bont SH589 218 - LL43 2AN

**Ebrill 13:**
Taith yn ardal **Llyn Mair**
Cyfarfod yn y maes parcio ger pen draw Llyn Mair. SH652 414

**Ebrill 27:**
Taith yn ardal **Llangefni**
Cyfarfod ar y groesffordd ger y gof-golofn yng nghanol **Talwrn.** SH488 775 – LL77 7TD

> Gobeithir trefnu teithiau eraill hefyd. Mae Gareth (**Adar Eryri**) am fynd â ni ar daith yn Sir Fôn a gobeithir trefnu taith i glywed **côr y wîg**. Gwnewch yn siwr eich bod ar ein rhestr e-bostio.

**Mai 4:**
Taith yn ardal **Coed Elernion, Trefor** ar y cyd ag AHNE Llyn
Cyfarfod ym mhen Lôn Trefor SH383 460 - LL54 5AB

**Mai 18:**
Taith yn ardal **Cwm Ystradllyn**
Cyfarfod ger Capel Golan SH532 416 - LL51 9YT er mwyn rhannu ceir.

**Mehefin 1:**
Taith yn ardal **Coed Llenyrch** (Talsarnau/Maentwrog)
Cyfarfod ym mhentref Cilfor SH621 376 - LL47 6YH er mwyn rhannu ceir.

**Mehefin 15:**
Taith yn ardal **Hiraethog – Llynnoedd Brenig ac Aled**
Cyfarfod ger canolfan ymwelwyr Llyn Brenig SH967 548 - LL21 9TT

**Mehefin 29:**
Taith yn ardal **Talacre**
Cyfarfod ger gwesty Y Goleudy, Traeth Talacre SJ124 846 - CH8 9RD

**Gorffennaf 13:**
Taith yn ardal **Llyn Dinas, Beddgelert**
Cyfarfod ger Llyn Dinas, SH612 494

**Teithiau yn cychwyn am 10.30 y bore (oni nodir yn wahanol)**

**www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**